# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, Senedd**

**a fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 22 Ionawr 2026

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(9.00-9.30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(9.30-11.00)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(9.30)

## 2 Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

(9.30-11.00) (Tudalennau 1 - 34)

Dawn Bowden AS, Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr Galluogi Gwasanaethau Cymdeithasol

Denise Moultrie, Pennaeth y Polisi Gofal Cartref a Gofalwyr Di-dâl

Briff Ymchwil

Papur 1: Cyflwyno tystiolaeth Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

**3.1 Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, yngl?n â chyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 35)

3.2 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yngl?n â Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonate monohydrad) (Cymru) 2026

(Tudalennau 36 - 37)

3.3 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yngl?n â phenodi Cadeirydd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

(Tudalen 38)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

## Cyfarfod preifat

(11.00-11.30)

## 5 Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(11.00-11.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Ymchwiliad i Wella Mynediad at Gymorth i Ofalwyr Di-dâl

22/01/2026

Mae'r papur hwn yn amlinellu ein gwaith mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a'r trydydd sector i wella'r gydnabyddiaeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr di-dâl. Caiff ein blaenoriaethau eu hamlinellu yn ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl[1], a gwnaethom wneud gwaith ymgysylltu helaeth â gofalwyr di-dâl yr haf diwethaf er mwyn datblygu strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2026.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl, lle na chaiff hyn ei ddarparu drwy gontract neu waith gwirfoddol. Mae 'gofalwyr ifanc' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc hyd at 18 oed. Mae 'gofalwr sy'n oedolyn ifanc' yn cyfeirio at y rhai sydd rhwng 18 a 25 oed. Gall ystyr negyddol fod yn gysylltiedig â'r term 'seibiant'. Rydym hefyd yn defnyddio 'gofal amgen' i gyfeirio at drefniadau ar gyfer y person ag anghenion gofal a chymorth sy'n galluogi'r gofalwr di-dâl i ymgymryd â thasgau eraill neu gael egwyl o'r rôl ofalu.

1 Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

**Prif rwystrau sy'n atal gofalwyr di-dâl rhag cael cymorth ....................3**

Ymwybyddiaeth o Ofalwyr ....................3

Gofalwyr hŷn ....................3

Siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl ....................3

Camau gwella ....................3

Mynediad at wybodaeth ym mhob cymuned ....................4

**Seibiant ....................5**

Cynllun Seibiannau Byr ....................5

**Gwasanaethau cymorth i ofalwyr ....................6**

Cymorth llesiant ....................6

Caledi ariannol ....................6

**Gofalwyr Ifanc ....................8**

Gofalwyr ifanc mewn addysg ....................8

Cardiau adnabod gofalwyr ifanc ....................9

Mathau eraill o gymorth ....................9

Cynrychioli gofalwyr ifanc ....................9

**Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ....................10**

**Camau i wella'r ffordd y rhoddir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith ....................11**

Data ar ofalwyr di-dâl ....................11

**Casgliad ....................14**

# Prif rwystrau sy'n atal gofalwyr di-dâl rhag cael cymorth

Mae'n hanfodol bod gofalwyr di-dâl yn cael eu nodi a'u cydnabod fel bod gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth angenrheidiol.

## Ymwybyddiaeth o Ofalwyr

Mae ein rhaglen Ymwybyddiaeth o Ofalwyr, a gaiff ei chyflwyno ar y cyd gan sefydliad Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, yn canolbwyntio ar gynyddu cydnabyddiaeth a chymorth i ofalwyr mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen hon ar ei phedwaredd flwyddyn ac mae wedi darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac ymarferwyr gofal iechyd. Mae pecynnau hyfforddiant e-ddysgu wedi cael eu datblygu ochr yn ochr â chanllawiau rhyddhau o'r ysbyty a deunyddiau eraill. Yn 2024/25, darparodd y rhaglen adnoddau i 700 o fyfyrwyr gofal iechyd a hyfforddiant i 268 o fyfyrwyr. Rydym wedi buddsoddi £1.2m yn y rhaglen ar gyfer 2022-26.

Gwnaethom ariannu ymgyrch wedi'i thargedu lwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Mehefin 2025 i roi gwybod i bobl ifanc am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc. Amcangyfrifwyd bod yr ymgyrch hon wedi cyrraedd bron dwy ran o dair o bobl ifanc rhwng 13 a 24 oed yng Nghymru.

## Gofalwyr hŷn

Rydym yn ariannu Age Cymru i ddarparu cyngor a chymorth cychwynnol i ofalwyr hŷn a chodi ymwybyddiaeth mewn meddygfeydd a lleoliadau cymunedol eraill. Mae gofalwyr hŷn yn llai tebygol o gael eu cydnabod neu ddisgrifio eu hunain fel gofalwyr di-dâl ac felly maent yn llai tebygol o geisio cymorth.

## Siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl

Mae ein Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl[2] yn amlinellu hawliau gofalwyr, yn hyrwyddo pwysigrwydd cydgynhyrchu ac yn adnodd allweddol i ofalwyr di-dâl a gweithwyr proffesiynol wella camau i gydnabod gofalwyr a chodi ymwybyddiaeth o'u hawliau.

## Camau gwella

Rydym wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu dan arweiniad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl[3]. Mae hyn yn canolbwyntio ar gamau gwell i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl – yn ogystal ag asesiadau o anghenion gofalwyr, a gaiff eu trafod yn fanylach yn nes ymlaen yn y papur hwn. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar ymhlith egwyddorion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014).

[2] Siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl

[3] Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl

Bydd y cynllun gweithredu yn cyflwyno dull gweithredu mwy cyson a gwybodus wrth ‘ddrws ffrynt’ gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru a bwriedir iddo gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2026.

## Mynediad at wybodaeth ym mhob cymuned

Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth â gofalwyr di-dâl a'u cynrychiolwyr dros yr haf i lywio'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Cyfarfu swyddogion â mwy na 50 o grwpiau o ofalwyr neu eu cynrychiolwyr, a gwnaethom ganolbwyntio'n arbennig ar ofalwyr di-dâl o gymunedau lleiafrifol ac a ymyleiddiwyd, gan gynnwys gofalwyr di-dâl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gofalwyr di-dâl B/byddar, gofalwyr ag anableddau dysgu, gofalwyr hŷn, gofalwyr mewn ardaloedd gwledig a gofalwyr LHDTC+.

Gwnaethant dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael mewn ieithoedd a fformatau gwahanol, gan gynnwys deunyddiau annigidol. Gwnaethant ddweud wrthym pa mor bwysig yw hi fod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt ac sy'n dangos ymwybyddiaeth o'u diwylliant, eu hunaniaeth neu eu hanabledd. Er enghraifft, gwnaethom gwrdd â grŵp o ofalwyr di-dâl ag anableddau dysgu nad oeddent yn teimlo bod eu rôl yn gofalu am bartneriaid neu rieni oedrannus ag anableddau yn cael ei chydnabod yn llawn gan weithwyr proffesiynol ac nad oedd gwybodaeth ar gael mewn fformatau ‘hawdd eu deall’.

Mae'n hanfodol ein bod ni, a'n partneriaid gofal cymdeithasol, yn ymgysylltu'n gydgynhyrchiol â gofalwyr di-dâl mewn amrywiaeth eang o gymunedau wrth gynllunio gwasanaethau ac adnoddau gwybodaeth a chyngor. Bydd hyn yn flaenoriaeth yn y strategaeth newydd.

# Seibiant

Mae darparu seibiant addas, neu ofal amgen, yn faes allweddol i ofalwyr di-dâl. Heb hyn, ni all llawer o ofalwyr sicrhau cydbwysedd yn eu bywydau.

Gwnaethom ysgrifennu at Arweinydd pob Cyngor ym mis Rhagfyr 2025 i bwysleisio pwysigrwydd y dyletswyddau sydd gan yr unigolion hyn o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mewn perthynas â darparu seibiant ac asesiadau o anghenion gofalwyr. Gwnaethom ofyn i gynghorau adolygu'r gwasanaethau seibiant a ddarperir ganddynt a thynnu sylw at fudd ystyried dull gweithredu rhanbarthol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

## Cynllun Seibiannau Byr

Gwnaethom sefydlu Cynllun Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru yn 2022. Y diben oedd hyrwyddo dull mwy hyblyg ac unigoledig o ymdrin â seibiannau i ofalwyr. Gall hyn gynnwys cyfarpar ar gyfer diddordebau, cynlluniau aelodaeth hamdden, sesiynau gweithgareddau a gwibdeithiau. Ni fwriadwyd i'r cynllun ddisodli'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu seibiant.

Caiff y cynllun ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Rhwng 2022 a 2025, darparodd dros 50,000 o seibiannau byr, gan ragori'n sylweddol ar y targed o 30,000. Roedd 80 y cant o'r rheini a wnaeth elwa ar y cynllun yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos ac nid oedd y rhan fwyaf o'r gofalwyr wedi cael unrhyw seibiant arall yn ystod y 12 mis blaenorol. Nid oedd bron hanner y rheini a fanteisiodd ar y cynllun yn hysbys i wasanaethau yn flaenorol a gellid eu cyfeirio at gymorth o ganlyniad i'r cyswllt. Mae'r cynllun felly'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar y rheini sy'n darparu'r lefelau uchaf o ofal ac nad ydynt yn cael seibiant fel arall, ac mae'n cynnig budd ychwanegol drwy gyfeirio gofalwyr at fathau eraill o gymorth.

Ein buddsoddiad blynyddol yw £3.5m ac rydym wedi cyhoeddi y bydd y cynllun yn parhau hyd at 2029; sef ymrwymiad cyllid o £24m i gyd. Gwnaethom gomisiynu gwerthusiad annibynnol gan Brifysgol Bangor. Mae canfyddiadau nas cyhoeddwyd o 729 o ymatebion unigol yn cynnwys y canlynol:

- cyn y seibiant byr, dywedodd 26% o ofalwyr mai prin yr oeddent yn teimlo'n optimistaidd, gostyngodd hyn i 8% ar ôl hynny.
- cyn y seibiant byr, dywedodd 27% o ofalwyr mai ychydig iawn o gyswllt cymdeithasol oedd ganddynt, gostyngodd hyn i 11% ar ôl hynny.

Yn ogystal, rydym yn darparu £360,000 bob blwyddyn i raglen Take a Break drwy grant Cronfa'r Teulu. Mae'r rhaglen hon yn rhoi cymorth i ofalwyr di-dâl a phlant sy'n anabl ac yn ddifrifol wael. Mae'r gronfa yn darparu cyfarpar synhwyraidd a chwarae a seibiannau i deuluoedd. Yn 2024/25, cefnogodd y rhaglen fwy na 1,000 o ofalwyr plant anabl.

# Gwasanaethau cymorth i ofalwyr

## Cymorth llesiant

Caiff ein Rhaglen Llesiant a Grymuso Gofalwyr ei chyflwyno gan sefydliad Gofalwyr Cymru gyda buddsoddiad blynyddol o £260,400. Mae hyn yn darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a sesiynau llesiant. Mae hefyd yn cynnwys cymorth i rymuso gofalwyr i gymryd rhan yn y broses o gydgynhyrchu gwasanaethau.

Yn ogystal, rydym yn ariannu Age Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddarparu cymorth i ofalwyr hŷn, gyda buddsoddiad blynyddol o £155,000 ar gyfer 2022-26. Yn 2024/25, roedd hyn yn cynnwys cefnogi dulliau arloesol i ofalwyr hŷn feithrin cysylltiadau cymdeithasol a gyrhaeddodd 735 o ofalwyr hŷn ac yn 2025/26 sefydlwyd llinell ffôn benodol i ddarparu cyngor i ofalwyr hŷn.

## Caledi ariannol

Rydym yn gwerthfawrogi'r costau ychwanegol a all godi mewn aelwydydd sy'n cynnwys rhywun sydd ag anghenion gofal a chymorth. Rydym yn croesawu'r adolygiad annibynnol o Ordaliadau'r Lwfans Gofalwr ac ymateb Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025. Mae'n bleser gennym nodi bwriad Llywodraeth y DU i gynnal ymarfer ailasesu i gywiro'r gwallau a wnaed a oedd yn golygu y gofynnwyd yn anghywir i rai gofalwyr ad-dalu Lwfans Gofalwr. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd ac rwyf wedi cael fy sicrhau y byddwn yn cael gwybod faint o ofalwyr di-dâl yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt, pan gaiff y nifer hwn ei nodi.

Rydym yn parhau i gefnogi pobl sy'n wynebu caledi ariannol eithriadol drwy ein Cronfa Cymorth Dewisol. Mae ein hymgyrch i annog pobl i hawlio budd-daliadau, 'Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi', yn darparu gwybodaeth am sut y gall pobl gadarnhau'r hyn y gallant ei hawlio.

<u>Y Gronfa Gymorth i Ofalwyr</u>

Gwnaethom sefydlu'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn 2022 ac rydym wedi'i hehangu hyd at fis Mawrth 2029. Ein buddsoddiad blynyddol yw £1.75m gyda chyfanswm buddsoddiad o £12.25m. Caiff y gronfa ei rheoli ar ein rhan gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac mae'n darparu cymorth ariannol brys i ofalwyr di-dâl ar incwm isel ar gyfer eitemau hanfodol neu filiau. Rhwng 2022 a 2025, rhoddwyd grantiau bach i 29,500 o ofalwyr di-dâl, bron dwbl y targed sef 15,000. Er na all y gronfa hon fynd i'r afael â phenderfynyddion tlodi, mae'n darparu sesiynau ar yr hawl i fudd-daliadau a rheolaeth ariannol, a all arwain at effaith barhaus ar gyllid yr aelwyd i rai gofalwyr.

<u>Gofalwyr a chyflogaeth am dâl</u>

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod gofalwyr di-dâl yn aros mewn cyflogaeth am dâl neu'n dychwelyd iddi, lle bynnag y bo modd. Gall hyn gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyllid a llesiant yr aelwyd, lle caiff cydbwysedd priodol â chyfrifoldebau gofalu ei sicrhau.

Mae ein Rhaglen Llesiant a Grymuso Gofalwyr y cyfeiriwyd ati'n flaenorol yn y papur hwn hefyd yn cynnwys llunio canllawiau ar hawliau cyflogaeth. Yn 2024/25, rhoddodd y rhaglen gymorth uniongyrchol i 81 o ofalwyr di-dâl i'w helpu i ailymuno â'r gweithlu a rhoddwyd hyfforddiant i 145 o staff canolfannau gwaith i sicrhau y gallent gefnogi gofalwyr i ddod o hyd i swydd yn well. Mae Gofalwyr Cymru hefyd yn ymgysylltu â chyflogwyr ar ein rhan ac yn nodi hyrwyddwyr gofalwyr mewn gweithleoedd i hyrwyddo dealltwriaeth o Ddeddf Absenoldeb i Ofalwyr (2023) a diwylliannau gweithleoedd sy'n 'ystyriol o ofalwyr'.

Mae cefnogi gofalwyr i gael gwaith am dâl yn flaenoriaeth allweddol ac rydym yn ystyried ffyrdd y gallwn hyrwyddo hyn ymhellach gyda'n partneriaid gofal cymdeithasol.

# Gofalwyr Ifanc

Er y dylid cydnabod a gwerthfawrogi rôl gofalwyr ifanc, gyda'n gilydd rhaid inni sicrhau nad yw hyn er anfantais i'w haddysg neu agweddau eraill ar eu bywydau ifanc.

## Gofalwyr ifanc mewn addysg

Rydym yn ymrwymedig i gyfle cyfartal a darpariaeth deg ym maes addysg ac mae cefnogi gofalwyr ifanc yn rhan annatod o'n blaenoriaethau i godi safonau a gwella presenoldeb a chyrhaeddiad i bob dysgwr.

Casglu data

Er bod gan rai ysgolion systemau datblygedig i gefnogi gofalwyr ifanc, mae prosesau casglu data ar ofalwyr ifanc yng Nghymru yn anghyson ar hyn o bryd, gan ei gwneud yn anodd darparu cymorth wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf. Rydym wedi rhoi dull gweithredu â thri cham ar waith ar gyfer gwella prosesau casglu data dros gyfnod o ddwy flynedd.

Caiff y cam cyntaf ei gwblhau yn hanner cyntaf 2026 a bydd yn coladu data o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, gan roi cipolwg ar brofiad gofalwyr ifanc yn yr ysgol a'u llesiant. Bydd cam dau yn cysylltu'r wybodaeth hon â data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw ac yn golygu y gellir cymharu cyrhaeddiad addysgol gofalwyr ifanc o gymharu â'u cyfoedion. Rydym hefyd yn ystyried dull dibynadwy hirdymor pellach o gasglu data, gan gynnwys ystyried gwneud newidiadau deddfwriaethol i'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) er mwyn cynnwys gofalwyr ifanc.

Adnoddau mewn ysgolion

Rydym wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu deunyddiau diwygiedig ar gyfer staff addysg er mwyn iddynt ddeall mwy am ofalwyr ifanc ac ymgysylltu â disgyblion. Bydd yr wybodaeth hon ar gael i bob aelod o staff addysg ar ddechrau 2026.

Addysg bellach ac uwch

Mae ein Cynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu yn galluogi darparwyr Addysg Uwch i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Gall gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc o aelwydydd incwm isel gael gafael ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn os ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd.

Mae Medr yn ariannu ac yn rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru ac mae'n disgwyl i golegau a phrifysgolion ddileu rhwystrau i gyfranogiad, cyfraddau cadw, llwyddiant a chynnydd. Rydym yn sicrhau bod prifysgolion yng Nghymru yn cynnwys gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn eu rhaglenni er mwyn darparu cymorth ariannol a bugeiliol.

## Cardiau adnabod gofalwyr ifanc

Gwnaethom weithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn 2022 i ddatblygu Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc ac mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithredu cynlluniau cardiau yn annibynnol ers 2023. Mae'r cardiau adnabod yn adnodd allweddol i helpu i adnabod gofalwyr ifanc mewn ysgolion, colegau a fferyllfeydd.

Gwnaethom anfon deunyddiau newydd ym mis Rhagfyr 2024 er mwyn galluogi pob awdurdod lleol i hyrwyddo ei gynllun ac rydym wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn â chamau pellach i sicrhau bod cynifer o ofalwyr ifanc â phosibl yn manteisio ar gynlluniau o'r fath, ac mae'r camau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

## Mathau eraill o gymorth

Gall gofalwyr ifanc fanteisio ar ein cynllun Seibiannau Byr a'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr. Mae hyd at chwarter y rhai sy'n cael seibiannau byr a 18% o'r rhai sy'n defnyddio'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn ofalwyr ifanc. Rydym yn parhau i gefnogi Gŵyl Gofalwyr Ifanc Cymru a gaiff ei chynnal bob blwyddyn ac rydym wedi cytuno ar £54,000 o gyllid i gefnogi'r digwyddiad nesaf ym mis Awst 2026. Mae'r ŵyl yn darparu seibiant dros dri diwrnod i fwy na 300 o ofalwyr ifanc, gyda chyfleoedd pwysig iddynt gael gwybodaeth a chymorth.

## Cynrychioli gofalwyr ifanc

Caiff ein Bwrdd Cynghori ar Ofalwyr Ifanc ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac mae pob aelod yn ofalwr ifanc. Mae'r adnodd gwerthfawr hwn yn craffu ar ein gwaith ac yn ei lywio. Mae gofalwyr ifanc hefyd yn aelodau gweithredol o Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

Rydym wedi sefydlu is-grŵp o Grŵp Cynghori'r Gweinidog er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau a hyrwyddo camau i ledaenu arferion gorau. Rydym yn ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i hwyluso Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc Cymru Gyfan o swyddogion awdurdodau lleol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc.

Llofnododd Llywodraeth Cymru y Cyfamod Gofalwyr Ifanc[4] ym mis Tachwedd 2025. Mae'r Cyfamod yn nodi deg canlyniad allweddol y mae gofalwyr ifanc wedi dweud sy'n allweddol i wella eu bywydau. Rydym am i awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau eraill ddod yn llofnodwyr unigol, a fydd yn hyrwyddo gweledigaeth a rennir ar gyfer gofalwyr ifanc ledled Cymru.

4 Y Cyfamod Gofalwyr Ifanc - Ymddiriedolaeth y Gofalwyr

# Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyfrifoldebau i hyrwyddo camau i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd, yn seiliedig ar asesiadau o anghenion eu poblogaethau. Mae'n ofynnol bod o leiaf 5% o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol flynyddol sy'n werth £146.8m yn cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau cymorth i ofalwyr (£7.34m).

O fewn hyn, rydym yn darparu £1m bob blwyddyn i fyrddau iechyd er mwyn darparu gwasanaeth cymorth i ofalwyr pan fydd y person y maent yn gofalu amdano yn yr ysbyty. Mae ein Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty[5] ar gyfer staff rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys gofalwyr di-dâl mewn cynlluniau rhyddhau, sy'n allweddol i sicrhau y caiff unigolion eu rhyddhau yn ddiogel ac yn effeithiol.

Rydym yn ariannu Gofalwyr Cymru i gefnogi'r rheini sy'n cynrychioli gofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n bwysig y caiff lleisiau gofalwyr di-dâl eu clywed yn y fforymau hyn.

5 Canllawiau rhyddhau o'r ysbyty: Ionawr 2025

# Camau i wella'r ffordd y rhoddir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith

Gwnaethom gomisiynu Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru) i adolygu'r ffordd yr oedd hawliau gofalwyr yn cael eu hamddiffyn[6]. Canfu'r adolygiad hwn nad oedd digon o asesiadau yn cael eu cwblhau, bod gofalwyr yn aml yn aros yn rhy hir a bod anghysondeb ledled Cymru o ran y ffordd roedd asesiadau yn cael eu cynnal. Rydym wedi gweithio drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog a chyda gofalwyr di-dâl er mwyn deall y rhwystrau a datblygu'r sail ar gyfer cynllun gweithredu. Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei arwain gan ADSS Cymru, a chaiff ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2026. Rydym wedi darparu £47,235 ychwanegol y flwyddyn ariannol hon i gyflymu'r broses gyflawni a datblygu adnoddau newydd i gefnogi ymarfer a gwybodaeth well ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Gwnaethom ysgrifennu at Arweinydd pob Cyngor ar 12 Rhagfyr i ofyn am wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd ym mhob awdurdod lleol i wella'r broses o ddarparu asesiadau o anghenion gofalwyr a byddwn yn ystyried yr holl ymatebion pan fyddant wedi dod i law ddiwedd mis Ionawr.

Mae'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cofnodi eu cysylltiadau cychwynnol gan ofalwyr di-dâl yn amrywio a chaiff hyn ei gynnwys yn y cynllun gweithredu sy'n cael ei arwain gan ADSS Cymru ac y mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn ei oruchwylio. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn awgrymu bod y ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â chynlluniau cymorth gofalwyr yn amrywio, a gallai gwaith pellach ganolbwyntio ar hyn.

Rydym yn datblygu Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2026 a chaiff ei chyhoeddi ar ôl yr etholiad. Bydd y strategaeth yn tynnu sylw at ddyletswyddau awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn perthynas â gofalwyr di-dâl.

## Data ar ofalwyr di-dâl

Mae ein data diweddaraf ar awdurdodau lleol gan StatsCymru[7] ar gyfer 2023/24 yn nodi'r canlynol mewn perthynas â **gofalwyr sy'n oedolion**:

- Cynyddodd cysylltiadau yn ceisio cymorth o 6,841 yn 2020/21 i 11,536 yn 2023/24, gyda 77% yn cael cyngor neu gymorth.
- Ni wnaeth nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr newid yn sylweddol, a chwblhawyd 6,924 yn 2023/24.

[6] Adolygiad cyflym o sut y cafodd hawliau gofalwyr di-dâl eu cynnal yn ystod ac ar ôl yr ymateb i COVID-19 ADSS Cymru 2023

7 StatsCymru - Gofalwyr

- O blith y rhain, nododd 47% anghenion lle roedd angen cynllun cymorth gofalwyr, nododd 42% anghenion a ddiwallwyd drwy ddulliau eraill, ac nid oedd gan 10% unrhyw anghenion cymwys.
- Roedd y ffordd yr ymdriniwyd â chynlluniau cymorth gofalwyr yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac roedd gan 18.5% eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain hefyd, dirywiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- O blith y rhai â chynllun cymorth yr oedd angen ei adolygu, cafodd 70% o leiaf un adolygiad yn 2023/24.

Gofalwyr ifanc:

- Gwnaeth y nifer a oedd yn ceisio cymorth ddyblu o 1,163 yn 2020/21 i 2,366 yn 2023/24.
- Cwblhawyd 1,468 o asesiadau ac arweiniodd 60% at gynllun cymorth gofalwyr neu gynllun gofal a chymorth (oherwydd eu hanghenion eu hunain).
- Roedd gan 1,728 o ofalwyr ifanc gynllun cymorth ar ddiwedd 2023/24 ac roedd gan 18% eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain hefyd (ni ddarparwyd data gan dri awdurdod lleol).
- Adolygwyd cynlluniau cymorth 2,119 o ofalwyr ifanc yn 2023/24.
- Mae cryn amrywiad yn y data sy'n cael eu cofnodi gan awdurdodau lleol.

Mae Adroddiad Blynyddol Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024[8] yn defnyddio data Arolwg Cenedlaethol Cymru[9] a gasglwyd drwy arolwg o'r boblogaeth ar hap.

Mae'r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Nododd cyfran fwy o ofalwyr di-dâl fod eu cymorth yn 'wael' neu'n 'wael iawn' o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Nododd gofalwyr di-dâl lefelau tebyg o foddhad â bywyd â phobl nad ydynt yn ofalwyr a lefelau uwch na phobl sy'n cael gofal a chymorth.
- Dywed gofalwyr di-dâl eu bod yn profi lefelau uwch o unigrwydd na phobl nad ydynt yn ofalwyr.
- Dywed gofalwyr di-dâl eu bod yn teimlo llai o reolaeth dros eu bywyd pob dydd o gymharu â phobl nad ydynt yn ofalwyr.

Mae data newydd[10] sydd ar gael ar oedolion sy'n cael gofal a chymorth a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol[11] yn dangos y canlynol

- Roedd gan 28% o oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2024 o leiaf un gofalwr di-dâl. [12]

8 Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol: adroddiad blynyddol 2024 | LLYW.CYMRU

9 Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU

10 Ystyrir bod y data hyn yn 'ystadegau swyddogol mewn datblygiad' a chaiff ansawdd y data ei wella dros y blynyddoedd nesaf.

11 Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth: 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 (ystadegau swyddogol mewn datblygiad) | LLYW.CYMRU

12 Bydd hyn yn dangyfrifiad o'r holl oedolion sydd â gofalwr di-dâl gan ei fod ond yn cyfrif y gofalwyr hynny y mae'r awdurdod lleol yn gwybod amdanynt.

- Roedd gan 5% o oedolion sy'n cael gofal a chymorth gyfrifoldebau gofalu hysbys am oedolyn neu blentyn anabl hefyd (ac roedd 60% o'r rhain yn cael cymorth parhaus am eu bod yn ofalwyr di-dâl).

Gwnaethom gomisiynu proses casglu data flynyddol statudol newydd mewn perthynas â gofalwyr sydd wedi cael asesiad o anghenion gofalwr drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Mae'r cyfrifiad newydd ar Ofalwyr Di-dâl sy'n cael Cymorth, sy'n cynnwys gofalwyr ifanc, wedi cael ei sefydlu gyda'r awdurdodau lleol a chaiff y data ar gyfer 2025/26 eu casglu yn 2026/27 a dylent fod ar gael erbyn mis Ebrill 2027.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw cofnodion cywir o'r holl ofalwyr di-dâl sy'n cael asesiad am gymorth. Am y tro cyntaf, bydd set ddata genedlaethol ar lefel unigolion am ofalwyr di-dâl a fydd yn galluogi dealltwriaeth fanwl o ddemograffeg gofalwyr di-dâl (gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion) sy'n cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol.

# Casgliad

Mae pwysau sylweddol ar ofalwyr di-dâl ac mae eu gwerth yn anfesuradwy. Rydym wedi amlinellu ein rhaglenni a'r gweithgarwch sylweddol sydd ar waith er mwyn gwella'r cymorth i ofalwyr di-dâl ledled Cymru ymhellach. Y flwyddyn hon, rydym wedi buddsoddi dros £13m o gyllid ychwanegol.

Mae mwy i'w wneud, a byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid gofal cymdeithasol a dysgu o brofiadau bywyd gofalwyr di-dâl. Bydd ein strategaeth genedlaethol newydd yn rhoi ysgogiad o'r newydd i'n blaenoriaethau a rennir, a bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl yn darparu trosolwg ar y cyd.

Eitem 3.1

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID-PO-004-26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

9 Ionawr 2026

Annwyl Mike

Ysgrifennaf atoch yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, ac ymhellach at fy llythyr dyddiedig 11 Tachwedd, i dynnu eich sylw at **Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol** sy'n crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod diweddaraf o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyllid; Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA /SM/2942/25

Peter Fox AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

13 Ionawr 2026

Annwyl Peter,

**Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026**

Ysgrifennaf i'ch hysbysu fy mod wedi gosod y Rheoliadau drafft uchod gerbron y Senedd heddiw a bod dadl yn y cyfarfod llawn wedi'i threfnu ar gyfer 24 Chwefror 2026. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 5 Mawrth 2026.

Diben y Rheoliadau hyn yw ychwanegu magnesiwm L-threonad monohydrad i Atodlen 2 i Reoliadau Maethiad (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") ac, wrth wneud hynny, awdurdodi ei ddefnydd mewn atchwanegiad bwyd ar y farchnad yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod meini prawf purdeb ar gyfer y sylwedd yng Nghymru yn unol â rheoliad 5(1)(b) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003.

Rwy'n bwrw ati â'r newid rheoleiddiol hwn yn dilyn cais gan fusnes bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, a oedd yn gofyn am gymeradwyo magnesiwm L-threonad monohydrad fel bwyd newydd o dan Reoliad (UE) 2015/2283 ar fwyd newydd o fewn y categori atchwanegiadau bwyd ac am ddiweddaru Atodlen 2 i Reoliadau 2019. Mae asesiad diogelwch ac ymgynghoriad cyhoeddus yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn perthynas â'r sylwedd hwn i'w gweld yma:

- Asesiad diogelwch
- Argymhellion Rheoli Risg
- Ymgynghoriad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (19 Rhagfyr 2024 - 19 Chwefror 2025)
- Yr ymatebion i ymgynghoriad yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Daeth yr asesiad diogelwch i'r casgliad nad yw'r sylwedd yn achosi risg i iechyd pobl ac roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad am y sylwedd hwn yn gefnogol i'w gymeradwyo fel bwyd newydd o fewn y categori atchwanegiadau bwyd ac i ddiweddaru Atodlen 2.

Byddaf, ar yr un pryd, yn awdurdodi'r sylwedd i'w ddefnyddio fel bwyd newydd yng Nghymru a bydd y dyddiad ar gyfer gweithredu'r awdurdodiad hwnnw yn cyd-fynd â'r dyddiad dod i rym ar gyfer y Rheoliadau hyn, os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd.

Rwy'n hapus i drafod y Rheoliadau hyn â chi a'r Pwyllgor a byddwn yn croesawu eich barn ar sut y gellid ymgysylltu mewn ffordd a fyddai'n ddefnyddiol i chi ac i'r aelodau eraill i gefnogi eich gwaith craffu.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMHSC/3203/25

Peter Fox, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

13 Ionawr 2026

Annwyl Peter,

Yn unol â'r canllawiau craffu cyn penodi ar y cyd rhwng Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru, rwy'n hysbysu'r Pwyllgor y bydd Cadeirydd presennol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Colin Dennis, yn cael ei ailbenodi am ail dymor o 1 Hydref 2026 tan 30 Medi 2030.

Cydymffurfiwyd â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus yn ystod y broses ailbenodi. Fel yr amlinellir yn y canllawiau, ni fydd yr ailbenodi yn rhan o'r broses gwrandawiad cyn penodi.

Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ac efallai y bydd cyhoeddiadau pellach yn dilyn maes o law.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.